## Telerau ac Amodau'r Raffl

1. Trwy gymryd rhan yn y raffl, byddwch yn cytuno i'r telerau a'r amodau hyn.
2. Caiff y raffl ei chynnal gan Gampws Dinas Casnewydd Coleg Gwent ('ni' / y 'Coleg'), Heol Nash, Casnewydd, NP19 4TS.
3. Bydd yr holl roddion yn mynd i Elusen y Flwyddyn Coleg Gwent, sef Gofal Hosbis Dewi Sant.

**Cymhwystra i gymryd rhan**

4. Bydd y raffl ar agor i bawb sydd dros 16 oed ac sy'n byw yn y DU.
5. Os byddwch yn cymryd rhan yn y raffl, rydych yn cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud hynny a'ch bod yn gymwys i hawlio unrhyw wobr y gallech ei hennill.
6. Mae'n costio £5 i gymryd rhan yn y raffl. Ni ddylid ychwanegu Rhodd Cymorth at eich rhodd Just Giving gan mai raffl yw hon.
7. Rhaid i'r plentyn a gynigir fel masgot fod rhwng 8-12 oed ac yn aelod o dîm rygbi.

**Sut i gymryd rhan**

8. Bydd y raffl yn dechrau am 12:00 ar 23 Tachwedd ac yn dod i ben am 17:00 ar 2 Rhagfyr. Ni dderbynnir cynigion hwyr.
9. I gymryd rhan yn y raffl:

   1. A wnewch chi roi £5 am bob tocyn raffl (heb Rodd Cymorth gan mai raffl yw hon) trwy ddefnyddio ein tudalen raffl Just Giving (www.justgiving.com/fundraising/dragonsmascot). Bydd rhoddion ychwanegol yn cael eu hystyried fel cynigion ychwanegol yn y raffl (h.y. £10 – 2 docyn raffl).

   2. Yna, rhaid ichi anfon eich derbynneb Just Giving i'r cyfeiriad News@coleggwent.ac.uk, gan nodi eich enw, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn, fel y bydd modd inni gysylltu â chi os enillwch.
10. Ni fydd y Coleg yn derbyn cyfrifoldeb os bydd y manylion cyswllt a nodir yn anghyflawn neu'n anghywir; ychwaith, ni fydd yn derbyn cyfrifoldeb os caiff cynigion raffl eu colli, eu difrodi neu eu gohirio tra cânt eu cludo.

**Y gwobrau**

11. Mae'r wobr fel a ganlyn:
    - Un wobr, sef cyfle i blentyn 8-12 oed fod yn fasgot yn ystod un o gemau rygbi'r Dreigiau, sef gêm bwysicaf y tymor rhwng y Dreigiau a Chaerdydd – 3pm ar 1 Ionawr 2022, ynghyd â 4 tocyn i aelodau o'r teulu neu gyfeillion wylio'r gêm.
12. Bydd yr enillydd yn cael ei ddewis ar hap.
13. Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r gwobrau, ac ni ellir cynnig arian yn eu lle.

14. Rydym yn cadw'r hawl i gynnig gwobrau eraill o'r un gwerth neu o werth uwch pe bai amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn mynnu hynny.
15. Bydd penderfyniad y Coleg ynglŷn â'r holl agweddau ar y raffl yn derfynol ac yn rhwymol, ac ni fydd modd cynnal trafodaeth yn eu cylch gyda'r Coleg.

**Cyhoeddi'r enillydd**

16. Bydd yr enillydd yn cael gwybod trwy e-bost ar ôl hanner dydd ar 3 Rhagfyr.
17. Bydd y Coleg yn ceisio cysylltu â'r enillwyr hyd at ddwywaith trwy e-bost. Os na lwyddir i gysylltu â nhw, bydd y Coleg yn cadw'r hawl i ddewis a hysbysu enillydd newydd.

**Hawlio'r wobr**

18. Bydd angen i'r enillydd roi'r manylion canlynol i Coleg Gwent, fel y gellir eu trosglwyddo i'r Dreigiau:
    - Enw
    - Oedran
    - Ysgol
    - Clwb
    - Hoff chwaraewr y Dreigiau
    - Llun o'r masgot
    - Maint crys
19. Os na fydd yr enillydd yn hawlio'i wobr o fewn 14 diwrnod, bydd yn colli'r hawl i'r wobr.
20. Os na ellir cysylltu â'r enillydd, neu os na fydd wedi hawlio'r wobr o fewn 48 awr, bydd y Coleg yn cadw'r hawl i ddewis a hysbysu enillydd arall.

**Diogelu data a chyhoeddusrwydd**

21. Yn achos unrhyw wybodaeth bersonol a gyflwynwch wrth gymryd rhan yn y raffl, rydych yn cydsynio i'r Coleg ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth weinyddu'r raffl.
22. Mae'r enillwyr yn cytuno i gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd rhesymol yn ymwneud â'r raffl, a gall hyn gynnwys cyhoeddi ei enw a chynnwys ei lun mewn unrhyw gyfrwng.
23. Bydd gwybodaeth bersonol o bob math yn cael ei defnyddio'n unol â Pholisi Diogelu Data'r Coleg.

**Cyfyngu ar atebolrwydd**

24. Ni fydd y Coleg yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros unrhyw ddifrod, colled, anaf neu siomedigaeth a ddaw i ran yr ymgeiswyr o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan yn y raffl neu o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cael eu dewis i gael gwobr, ond ni fydd y Coleg yn gwrthod ei atebolrwydd dros farwolaeth neu anaf personol a all ddigwydd o ganlyniad i'w esgeulustod ei hun.

**Cyffredinol**

25. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ganslo'r raffl neu newid y telerau a'r amodau hyn ar unrhyw adeg, heb roi rhybudd ymlaen llaw.
26. Bydd y raffl a'r telerau a'r amodau hyn yn dod dan lywodraeth cyfraith Lloegr, a bydd unrhyw anghydfod yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.